


Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau'r prawf.
Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i'r un a ddefnyddioch yn flaenorol.

Eich canllaw cam wrth gam i Hunan-brawf Cyflym (Antigen) Covid-19 Orient Gene



Mae'r cyfarwyddiadau defnydd hyn yn berthnasol i Hunan-brawf Cyflym (Antigen) Covid-19 Orient Gene yn unig (GCCOV-502a-H7OGE) yn unig.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i brofi eich hun neu unigolyn arall am COVID-19, ac adrodd i'r GIG am y canlyniadau.

Mae fersiynau ar gael mewn **ieithoedd eraill** gan gynnwys Cymraeg, ynghyd ag arddangosiadau fideo ar gael ar gov.uk/covid19-self-test-help

Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG

Beth sydd angen i chi ei wneud

Eich canllaw cam wrth gam

Darllenwch trwy'r cyfarwyddiadau'n ofalus a dilyn y camau yn y drefn gywir. Mae pob prawf yn cymryd tua 15 munud i baratoi a bydd y canlyniadau'n barod ar ôl 15 munud arall.



Cynnwys y llyfryn hwn

Rhan	Teitl	Tudalen
1	Paratoi eich ardal brawf	6
	Gwirio cynnwys eich pecyn profi	7
2	Paratoi eich prawf	8
3	Cymryd eich sampl swab	10
	Gwneud prawf ar rywun arall	11
4	Prosesu'r sampl swab	12
5	Darllen eich canlyniad	14
6	Adrodd eich canlyniad	15
7	Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu	16
8	Perfformiad y prawf	17
9	Gwaredu'ch pecyn profi yn ddiogel	17
	Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion	18

Nid yw tua 1 o bob 3 o bobl sydd â COVID-19 yn gwybod ei fod ganddynt.

Gyda hunan-brofi rheolaidd gallwn arafu'r lledaeniad a helpu i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein teuluoedd a'n cymunedau.

Cyngor ar gymryd y prawf

Mae yna awgrymau defnyddiol, cyngor a blychau rhybudd trwy gydol y canllaw i'ch helpu. Trwy ddilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus gam wrth gam, byddwch yn llawer mwy tebygol o gael canlyniad dibynadwy.

Canllawiau a rhybuddion cyffredinol

- Os bydd eich trwyn yn gwaedu yn ystod swabio, stopiwch swabio. Nid yw'n bosibl profi'r swab.
- Nid yw'r cynnyrch wedi ei greu gyda latecs rwber naturiol, fodd bynnag ni ellir eithrio presenoldeb neu olion latecs rwber naturiol yn y cynnyrch fel y mae wedi ei ddarparu i'r defnyddiwr terfynol yn llwyr.
- Cadwch y pecyn profi i ffwrdd o blant.
- Mae holl elfennau'r pecyn yn eitemau defnydd unigol ac eithrio'r daliwr tiwb echdynnu. **Peidiwch ag aildefnyddio** unrhyw elfennau o'r pecyn wedi eu defnyddio fel swabiau neu diwbiau echdynnu, ar wahân i'r daliwr tiwb echdynnu.
- Peidiwch** â chymysgu elfennau o flychau gwahanol becynnau. Defnyddiwch yr elfennau a ddarparwyd yn eich pecyn hwn yn unig.
- Peidiwch** â defnyddio casét y prawf os yw wedi ei amlygu i gynnrych glanhau'r cartref (yn arbennig cannydd) gan y gallai hyn arwain at ganlyniad anghywir.
- Peidiwch** â chyflawni'r prawf mewn golau haul uniongyrchol gan y gallai hyn arwain at ganlyniad anghywir.
- Dim ond at ddefnydd dynol y mae'r pecynnau hyn wedi'u cynllunio.
- Peidiwch** â thaflu'r daliwr tiwb echdynnu, caiff ei ddefnyddio ar gyfer pob prawf.

Cyngor

- Storiwch y pecyn profi ar dymheredd ystafell arferol mewn lleoliad sych, heb fod yn rhy gynnes (2°C i 30°C).
- Peidiwch â'i adael yng ngolau'r haul uniongyrchol a pheidwch â storio mewn rhewgell.
- Dylech ddefnyddio'r pecyn ar dymheredd ystafell (15°C i 30°C). Os yw'r pecyn wedi'i storio mewn ardal dan 15°C, gadewch ef ar dymheredd ystafell am 30 munud cyn ei ddefnyddio.

Ynglŷn â'r prawf hwn

Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae'r pecyn Hunan-brawf Cyflym (Antigen) COVID-19 yma yn brawf swab ar gyfer y trwyn i wirio os ydych yn heintus. Mae ar gyfer pobl sydd â symptomau yn ogystal â rhai heb unrhyw symptomau. Fodd bynnag, dylech ddilyn canllawiau cenedlaethol i wirio pa fath o brawf sy'n addas i chi.

Os byddwch yn dychwelyd prawf positif ar gyfer COVID-19 dylech:

- helpu cyfyngu ar ledaeniad y clefyd, dylech chi a'ch aelwyd ddilyn canllawiau cyfredol y llywodraeth: nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/
- gynghori'r rhai rydych chi wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw a lleoliadau rydych chi wedi ymweld â nhw yn ystod y 48awr cyn i'ch symptomau gychwyn, neu o'r diwrnod pan ddangosir canlyniad prawf positif os nad oes symptomau, y dylent gael prawf ar gyfer haint COVID-19 posibl. Dilynwch ganllawiau lleol a chenedlaethol ar bob adeg.

Os byddwch yn derbyn prawf negatif ar gyfer COVID-19

Mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrydd nad oes gennych y coronafeirws. Dylech barhau i ddilyn canllawiau'r llywodraeth.


Cyngor

Os oes gennych chi neu eich plentyn/plant symptomau coronafeirws (COVID-19) neu os ydych wedi dal y coronafeirws (COVID-19), darllenwch ganllawiau'r GIG ar-lein: nhs.uk/conditions/coronavirus-COVID-19

Os oes gennych chi neu eich plentyn/plant symptomau coronafeirws (COVID-19) ac mae'r cyflwr yn gwaethygu, neu os nad ydych chi/eich plentyn/plant yn gwella wedi 7 niwrnod, ewch i wasanaeth ar-lein **111** y GIG: 111.nhs.uk. Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhynggrwyd, ffoniwch GIG **111**. Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999**.

Peidiwch ag oedi cyn gofyn am help os ydych yn poeni. Dilynwch eich greddf.

Ar gyfer pwy mae'r prawf yma'n addas



Oedolion 18+ oed

Hunan-brofi ac adrodd, gyda chymorth os oes angen.



Pobl ifanc rhwng 12-17 oed

Hunan-brofi a rhoi gwybod gyda chymorth oedolyn os oes angen. Gall yr oedolyn gyflawni'r prawf, os oes angen.



Plant dan 12

Dylai oedolyn gynnal y prawf ar blant dan 12 oed. Peidiwch â chynnal y prawf os nad ydych yn teimlo'n hyderus yn cynnal y prawf ar blentyn. Peidiwch â pharhau gyda'r prawf os yw'r plentyn yn teimlo poen.

- Gall pobl sydd â nam ar eu golwg ddal i ddefnyddio ein pecynnau profi, ond efallai y byddant angen cymorth.
- Nid yw'r prawf yma'n addas ar gyfer pobl sy'n dueddol o gael gwaedlif o'r trwyn, neu bobl sydd wedi cael llawdriniaeth ar gyfer anaf i'r wyneb neu'r pen yn ystod y 6 mis diwethaf.

Pa mor aml i brofi

Gall pa mor aml y dylech brofi amrywio yn ôl eich amgylchiadau a beth yw'r canllawiau cenedlaethol neu leol ar y pryd.


Ble i ddod o hyd i gymorth ychwanegol

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am hunan-brofi ar: gov.uk/covid19-self-test-help

1. Paratoi eich ardal brawf

Bydd arnoch angen:

- amserydd fel oriawr neu gloc
- hancesi papur
- drych
- glanhawr arwyneb
- hylif diheintio dwylo neu sebon a mynediad at ddŵr cynnes



- 1** Darllenwch y canllaw cyfarwyddyd hwn yn ofalus. Gallwch hefyd wyllo'r fideo prawf swab ar-lein os ydych chi angen rhagor o help: gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help



- 2** Yn syth cyn cychwyn y prawf, cliriwch, glanhewch a sychu arwyneb gwastad i roi'r pecyn profi arno. Mae hyn er mwyn osgoi halogi'r prawf.



20
eiliad


- 3** Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo. Os ydych chi'n profi mwy nag un person neu'n ailadrodd prawf annilys, golchwr yr arwyneb ac ail-olchi eich dwylo rhwng pob prawf. Mae hyn er mwyn osgoi halogi'r prawf.

Gwiriwch gynnwys eich pecyn

- 4** Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld:



Swab di-haint wedi ei selio mewn lapiwr (x7)



Casét profi mewn pecyn wedi selio (x7)



Bag sy'n cau â sip (x7)
Defnyddiwr fel bag gwastraff



Tiwb echdynnu gyda byffer (x7)



Cap ffroenell (x7)



Daliwr tiwb echdynnu (x1 aml dro)
(Peidiwch â'i daflu)

Cyngor

Beth i'w wneud os yw rhywbeth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll

Os byddwch yn sylwi bod unrhyw beth wedi ei ddifrodi, torri neu ar goll, peidiwch â defnyddio'r pecyn profi. Gallwch roi adborth trwy ffonio'r ganolfan gyswllt i gwsmeriaid. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

Ffoniwch: **119** (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir).

Rydym yn cynnig cefnogaeth mewn 200 o ieithoedd, yn ogystal ag laith Arwyddion Prydain.

Os byddwch yn cael eich niweidio gan ddyfaïs; gallai adrodd amdano helpu eraill, ewch i: coronavirus-yellowcard.mhra.gov.uk

2. Paratoi eich prawf



- 5 Cadwch y tiwb i ffwrdd o'ch wyneb, gan dynnu'r ffilm selio ar y tiwb echdynnu yn ofalus i osgoi arllwys unrhyw hylif.

Rhybudd

Peidiwch â brathu ffilm selio'r tiwb echdynnu. Ceisiwch osgoi cysylltiad rhwng y byffer echdynnu a'ch croen.

Rhybudd

Mae'r byffer echdynnu yn cynnwys cadwolion a allai achosi adwaith alergol i rai pobl. Os yw'r toddiant yn dod i gysylltiad â'r croen neu lygad, golchwch gyda digon o ddŵr. Os bydd y croen yn cosi, mynnwch sylw meddygol.



- 6 Rhewch y tiwb echdynnu sy'n cynnwys y byffer yn y daliwr tiwb echdynnu.




- 7 **Chwythwch eich trwyn yn ofalus** mewn hances bapur a'i thaflu yng ngwastraff cyffredinol eich cartref. Mae hyn er mwyn cael gwared ar lysnafedd gormodol. Os ydych yn cynnal prawf ar blentyn/ dibynnydd, helpwch ef neu hi i chwythu ei drwyn/thrwyn fel sydd angen.



20
eiliad


- 8 **Golchwch eich dwylo** yn drylwyr am 20 eiliad **wedi chwythu eich trwyn**, gan ddefnyddio sebon a dŵr, neu hylif diheintio dwylo. Mae hyn er mwyn osgoi halogi'r prawf. Os ydych chi'n helpu plentyn/dibynnydd i chwythu ei drwyn/thrwyn, **rhaidd i'r ddau ohonoch olchi eich dwylo'n** drylwyr am 20 eiliad, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo.



Handlen y swab

Blaen y swab

- 9 Chwiliwch am y swab di-haint yn y pecyn wedi ei selio. Nodwch ben ffabrig, meddal y swab.



- 10 Agorwch y pecyn swab a thynnwch y swab allan yn ofalus.

Rhybudd

Peidiwch byth â chyffwrdd â blaen ffabrig y swab gyda'ch dwylo na chyffwrdd unrhyw arwynebau.


3. Cymryd eich sampl swab

Rhybudd

Sicrhewch fod unrhyw emwaith tyllu trwyn neu debyg wedi eu tynnu cyn swabio.

Os ydych yn cynnal prawf ar blentyn dan 12 neu rywun sydd angen cymorth, dilynwch y camau ar dudalen 11.

Profi eich hun




10

Ffroen gyntaf

Rhowch flaen ffabrig y swab tu fewn i un ffroen (tua 2.5 cm i mewn), gan sicrhau bod blaen ffabrig y swab wedi ei osod 2.5cm tu fewn i'r ffroen gyntaf.

Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'ch ffroen mewn **symudiad cylchol 5 o weithiau**. Gwnewch yn siŵr bod yna gyswllt da rhwng blaen ffabrig y swab a thu mewn y ffroen.

Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'ch ffroen.



11

Ail ffroen

Gan ddefnyddio'r un swab, rhowch flaen ffabrig y swab tu fewn i'r ffroen arall (tua 2.5 cm i mewn), gan sicrhau bod blaen ffabrig y swab wedi ei osod 2.5cm tu fewn i'r ail ffroen.

Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn i'ch ffroen mewn **symudiad cylchol 5 o weithiau**. Gwnewch yn siŵr bod yna gyswllt da rhwng blaen ffabrig y swab a thu mewn y ffroen.



Rhybudd

Os bydd eich trwyn yn gwaedu yn ystod y swabio, stopiwch swabio. Nid yw'n bosibl profi'r swab. Fe argymhellir cysylltu â'ch meddyg os yw'r gwaedu'n parhau.


Mae'r llyfryn hwn yn cyfeirio at Hunan-brawf Cyflym (Antigen) Covid-19 Orient Gene yn unig: GCCOV-502a-H7OGE

Gwneud prawf ar rywun arall

Dylai oedolyn brofi plant dan 12. Dilynwch y canllawiau isod ar sut i baratoi a phrofi plentyn neu berson sydd angen cymorth. Gallwch wyllo fideo arddangos ar:

gov.uk/guidance/covid-19-self-test-help

Os ydych chi'n profi plentyn, dangoswch y pecyn prawf iddynt a thrafod beth fyddwch chi'n ei wneud. Os yn bosibl, rhowch nhw i eistedd ar lin rhywun neu gael rhywun i ddal eu llaw. Gofynnwch i'r plentyn chwythu ei drwyn neu ei thrwyn mewn hances bapur. Rhowch yr hances mewn bin sy'n cau.




10

Ffroen gyntaf

Rhowch flaen y swab ffabrig tu fewn i un ffroen y plentyn/person rydych chi'n ei brofi.

Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn y ffroen mewn **symudiad cylchol 5 o weithiau**. Nid oes angen defnyddio grym a does dim rhaid i chi wthio'n rhy bell i'r ffroen. Gwnewch yn siŵr bod cyswllt da rhwng blaen ffabrig y swab a thu fewn y ffroen gyntaf.



11

Ail ffroen

Gan ddefnyddio'r un swab, rhowch flaen y swab ffabrig tu fewn i'r ffroen arall y plentyn/person rydych chi'n ei brofi.

Trowch y swab yn ofalus o amgylch tu fewn ei ffroen mewn **symudiad cylchol 5 o weithiau**, gan wneud yn siŵr bod cyswllt da rhwng blaen ffabrig y swab a thu fewn y ffroen.




Rhybudd

Os yw trwyn y person rydych chi'n ei swabio yn gwaedu, stopiwch swabio. Nid yw'n bosibl profi'r swab. Fe argymhellir cysylltu â'i feddyg neu ei meddyg os yw'r gwaedu'n parhau.

Mae'r llyfryn hwn yn cyfeirio at Hunan-brawf Cyflym (Antigen) Covid-19 Orient Gene yn unig: GCCOV-502a-H7OGE

4. Prosesu'r sampl swab



- 12** Rhowch flaen ffabrig y swab yn yr hylif tiwb echdynnu.

Pwyswch y blaen yn gadarn yn erbyn ymyl y tiwb echdynnu, a'i gylchdroi o amgylch y tiwb **o leiaf 6 o weithiau**.



- 13** Gadewch y swab yn y tiwb echdynnu, **gosod amseredd** a'i adael am **1 funud**.




- 14** Tynnwch y swab allan o'r tiwb echdynnu.



- 15** Rhowch y swab yn y bag sip plastig.

Cyngor

Gellir defnyddio'r bag sip unigol fel y bag gwastraff.



- 16** **Gwasgwch** y caead yn dynn ar y tiwb echdynnu er mwyn osgoi unrhyw ollyngiadau.

Rhowch y tiwb echdynnu'n ôl yn y daliwr tiwb echdynnu.



- 17** **Gwiriwch y dyddiad dod i ben (EXP)** ar y pecyn wedi selio. Tynnwch y casét prawf o'r pecyn wedi'i selio a'i osod ar yr arwyneb gwastad sydd wedi'i lanhau.

Rhybudd


Dylid gwaredu casét prawf sydd bod tu allan i'r pecyn wedi'i selio am fwy na 30 munud. Taflwch y bag dysychwr mewnol a'r pecyn yn y bag gwastraff/bag sip yn ddiogel.



- 18** Gwasgwch y tiwb echdynnu yn **ofalus** i roi **4 diferyn** o hylif yn y ffynnon sbesimen (wedi ei farcio ag **S**) ar y casét profi.

Cyngor

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r casét profi ar **arwyneb gwastad a lefel**. Peidiwch â symud y casét profi yn ystod y prawf. Ychwanegwch ddiferion yn araf i'r sampl. Peidiwch â'i orlenwi.




- 19** **Gosodwch amseredd.** Arhoswch 15 munud cyn darllen eich canlyniad.

5. Darllen eich canlyniad


Pwysig

Peidiwch â gadael i'r prawf ddatblygu am fwy na 20 munud gan y bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys.




+ Canlyniad positif

Mae dwy linell yn ymddangos. Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (C), a llinell lliw arall yn ardal y llinell brawf (T). Mae dwy linell, un wrth ymyl C ac un wrth ymyl T, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn positif.



Pwysig

Os bydd eich canlyniad yn positif, dylech hunanynysu, dylai eich aelwyd ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar hunanynysu: [nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/](https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/)




- Canlyniad negatif

Mae un llinell lliw yn ymddangos yn yr ardal llinell reoli (C). Does yna ddim llinell lliw yn ymddangos yn y rhanbarth llinell brawf (T).


⊘ Canlyniad annilys

Nid yw'r llinell rheoli (C) yn ymddangos.



6. Adrodd eich canlyniad


Dylech adrodd eich canlyniadau positif, negatif ac annilys i'r GIG.



Mae cofnodi canlyniad pob prawf yn helpu gwyddonwyr i nodi achosion newydd o'r firws a chynghori ar sut i ymateb. Os mai dim ond canlyniadau positif a adroddir arnynt, mae lefelau achosion yn ymddangos i fod yn uwch nag ydynt mewn gwirionedd.

Felly hyd yn oed os yw'ch canlyniad yn negatif neu'n annilys, dylech sicrhau bod gwybodaeth y GIG yn gywir.

Mae angen y cod QR, neu'r rhif adnabod sydd o dan i adrodd eich canlyniad.



Adrodd ar-lein (cyflymaf)

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon ewch i: gov.uk/report-covid19-result

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i: covidtest.scot



Neu adrodd dros y ffôn

Ffoniwch **119**

Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11 pm, (am ddim o ffônau symudol a llinellau tir)

7. Beth mae eich canlyniadau'n ei olygu

Dim ond wedi i chi adrodd eich canlyniad fyddwch chi wedi cwblhau eich prawf

Canlyniad positif

Os byddwch yn cael canlyniad positif, mae'n debygol eich bod wedi eich heintio â COVID-19 ar hyn o bryd a bod perygl y byddwch yn heintio eraill. Dylech hunanynysu. Pan fyddwch yn adrodd eich canlyniad, byddwch yn cael rhagor o wybodaeth ar y camau nesaf i'w cymryd.

Rhybudd

Dylech chi, ac unrhyw un sy'n byw gyda chi, ddilyn y canllaw cenedlaethol a lleol cyfredol. Gellir dod o hyd iddo yn: nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/self-isolation-and-treatment/

Canlyniad negatif

Os byddwch yn cael canlyniad negatif, mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf. Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrhwydd nad oes gennych COVID-19.

Os yw canlyniad y prawf yn negatif, dylech barhau i ddilyn rheolau a chanllawiau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys golchi dwylo'n rheolaidd, cadw pellter cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb lle mae angen gwneud hynny.

Os byddwch chi'n datblygu symptomau, dylech hunanynysu a chael y prawf a argymhellir ar hyn o bryd ar: gov.uk/get-coronavirus-test neu trwy ffonio eich canolfan gyswilt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm. Dylech chi a'ch aelwyd ddilyn canllawiau cenedlaethol.



Canlyniad annilys

Os byddwch yn cael canlyniad annilys, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i ni ddweud a oedd y feirws arnoch pan gynhaliwyd y prawf. I wirio os oes gennych chi'r coronefeirws, cymerwch brawf arall cyn gynted â phosibl. Peidiwch ag ail-ddefnyddio unrhyw beth o'r pecyn profi a chychwynnwch weithdrefn y prawf o gam 1.

Os yw'r broblem yn parhau

Os yw'r broblem yn parhau, stopiwch ddefnyddio'r pecynnau profi ar unwaith. Os nad oes gennych chi brawf arall ar gael, gallwch gymryd gwahanol fath o brawf trwy ap COVID-19 y GIG neu trwy fynd i: gov.uk/get-coronavirus-test neu trwy ffonio'r ganolfan gyswilt cwsmeriaid ar **119**. Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

8 Perfformiad y prawf

Mae'r prawf yn fwy tebygol o roi canlyniad positif os oes gan rywun lefelau uchel o goronefeirws (COVID-19).

Mae hyn yn golygu ei fod yn fwy tebygol o ddarganfod y bobl sy'n heintus ar hyn o bryd sydd angen hunanynysu ar unwaith.

9 Gwaredu'ch pecyn profi yn ddiogel



Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf, rhowch yr holl eitemau o'r pecyn prawf a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarparwyd, ar wahân i'r daliwr tiwb plastig, a rhoi hyn yng ngwastraff cyffredinol y cartref.

Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu.

Cyngor

Gellir defnyddio'r bag sip unigol fel y bag gwastraff.

Gwnewch nodyn o ganlyniadau eich profion

Mae hyn ar gyfer eich cofnodion chi eich hun. Dylech adrodd i'r GIG am eich canlyniad hefyd (gweler tudalen 15 am ragor o wybodaeth).

Ewch i: gov.uk/report-covid19-result

Os ydych chi'n byw yn yr Alban ewch i: covidtest.scot

Cod QR / rhif adnabod y pecyn profi	Pwy gymerodd y prawf	Dyddiad	Amser	Canlyniad Prawf

Mae eich pecyn yn cynnwys y deunyddiau canlynol

Eitemau	Pecyn o 7
Cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio (sef y ddogfen hon)	1
Swab di-haint wedi ei selio mewn lapiwr	7
Casét profi mewn pecyn wedi selio	7
Tiwb echdynnu gyda byffer	7
Cap ffroenell	7
Bag clo sip	7
Daliwr tiwb echdynnu	1
Tystysgrif QC	1
	x

Ni chaniateir cyflenwi'r ddyfais hon ond fel rhan o waith y DHSC dan raglen Profi ac Orlhain y GIG.



Zhejiang Orient Gene Biotech Co., Ltd
Cyfeiriad: 3787#, East Yangguang Avenue, Dipu Street,
Anji 313300, Huzhou, Zhejiang, China (Tsiena)
Ffôn: +86-572-5226111 Ffacs: +86-572-5226222
Gwefan: www.orientgene.com
quality@orientgene.com



CE₀₁₂₃



SENSUS GROUP LTD
Cyfeiriad: The Barn, Tednambury Farm, Tednambury, Spellbrook,
Herts, CM23 4BD United Kingdom (Y Deyrnas Unedig)



Shanghai International Holding Corp. GmbH (Europe)
Cyf: Eiestrasse 80, 20537 Hamburg, Germany (Yr Almaen)



Gwybodaeth swab:
Jiangsu ChangFeng Medical Industry Co., LTD
Cyfeiriad: Touqiao Town, Guangling DISTRICT,
Yangzhou, Jiangsu 225109 China (Tsiena)

CE₀₁₉₇



Llins Service & Consulting GmbH
Obere Seegasse 34/2, 69124 Heidelberg, Germany (Yr Almaen)
Email-info@llins-service.com

Symbolau a ddefnyddiwyd



Storiwch ar
2 – 30°C



Diheintiwyd
gan ddefnyddio
ethylen ocsideid



Gwneuthurwr



Peidiwch â
defnyddio'r
cynnwyrch pan
fydd y pecyn
wedi'i ddifrodi



Rhif lot



Dyddiad dod i ben



Dyfais feddygol
ddiagnostig in vitro



Cadwch oddi
wrth olau haul



Dyddiad
cynhyrchu



Peidiwch â'i
ailddefnyddio



Rhybudd,
dilynwch y
cyfarwyddiadau



Cadwch yn sych



Gweler y
cyfarwyddiadau
ar gyfer defnydd



Nifer o unedau
yn y pecyn (7)



Person Cyfrifol yn
y Deyrnas Unedig



Rhydd o latecs



Rhif catalog



Peidiwch â'i ail
ddefnyddio



Cynrychiolydd awdurdodedig
Ewropeaidd

Fersiwn B22088-03 Dyddiad effeithiol 2021/10/04



GCCOV-502a-H70GE

Mae'r llyfryn hwn yn cyfeirio at Hunan-brawf Cyflym (Antigen) Covid-19 Orient Gene yn unig: GCCOV-502a-H70GE

Adroddwch eich holl ganlyniadau prawf i'r GIG